

Mis Hanes Pobl Dduon

O ddydd Gwener 1 Hydref tan ddydd Sul 31 Hydref 2021.

1. **Mewn grwpiau, trafodwch beth yw ystyr Mis Hanes Pobl Dduon yn eich barn chi, a pham mae'n bodoli.** Ysgrifenna dy atebion yn y bocs isod.



2. **Ymchwilia i ddarganfod pam mae Mis Hanes Pobl Dduon ym mis Hydref.** Noda dy syniadau isod.


3. **Cer i wefan Newsround a gwylia'r fideo canlynol. Mewn grwpiau neu fel dosbarth, trafodwch eich meddyliau am hiliaeth ac amrywiaeth yn y Deyrnas Unedig.**



BBC

4. **Cwis Pwy ydw i: Ceisia adnabod y bobl dduon ysbrydoledig canlynol. Sawl un alli di ei gael yn gywir?**

a. Cefais fy ngeni a fy magu yn Philadelphia. Dechreuais fy ngyrfa fel actor ond yna symudais ymlaen i ganu. Nawr, rwy'n enwog am ganu ac actio, ond hefyd am gynhyrchu ffilmiau ac ysgrifennu caneuon i artistiaid eraill. Rydw i wedi cael fy enwebu am wobrau Golden Globes, Academy a Grammys. Fi yw seren cyfresi ffilmiau fel Men in Black a Bad Boys. **Pwy ydw i?** _____



b. Cefais fy ngeni amser maith yn ôl yn 1913 yn Alabama. Yn 1955, gwrthodais ildio fy sedd i rywun gwyn ar fws cyhoeddus; Cefais fy arestio am wneud hynny a chefais ddirwy o \$10 (sydd gywerth â £75 yn arian heddiw). Sbardunodd y digwyddiad hwn Foicot Bysiau Montgomery, a gododd fwy o ymwybyddiaeth o arwahanu hiliol a hiliaeth. Yn sgil hyn, gwaredwyd nifer o reolau a deddfau. Yn ddiweddarach, daeth pobl i gyfeirio ataf fel "mam y mudiad hawliau sifil". **Pwy ydw i?** _____




c. Cefais fy ngeni yn 1929 yn Georgia yn Unol Daleithiau America. Roedd fy nhad yn weinidog yn Eglwys y Bedyddwyr, ac fe safodd yn erbyn gwahaniaethu ar sail hil ac arwahanu hiliol. Fi oedd arweinydd Boicot Bysiau Montgomery. Roedd dysgeidiaeth Mahatma Gandhi am fod yn ddi-drais wedi dylanwadu'n gryf arnaf a helpodd fi i drefnu protestiadau, gorymdeithiau ac ymgyrchoedd meddiannu di-drais. Traddodais fy anerchiad 'I have a dream' enwog yn 1963. Wedi i mi gael fy saethu'n farw gan James Earl Ray, cyhoeddodd yr Arlywydd Johnson Ddiwrnod Cenedlaethol o Alaru. **Pwy ydw i?** _____





ch. IRydw i'n ddu, yn Brydeiniwr ac yn enwog ym maes chwaraeon. Dechreuais rasio gwibgerti pan oeddwn i'n wyth mlwydd oed. Fi oedd y gyrrwr du cyntaf i rasio yn Formula 1. Nawr rydw i wedi ennill mwy o rasys nag unrhyw yrwr arall yn Formula 1 a fi oedd y cyntaf i ennill 100 o rasys yn y gamp. Fi yw pencampwr byd du cyntaf Formula 1. **Pwy ydw i?** _____



d. Cefais fy ngeni yn Hawaii yn 1961. Symudais i Indonesia pan oeddwn yn bedair blwydd oed. Symudais yn ôl i America pan oeddwn i'n ddeng mlwydd oed. Yn 1991, graddiais o Ysgol y Gyfraith, Harvard. Yn 2009, enillais Wobr Heddwch Nobel. Ym mis Ionawr 2009, cefais fy sefydlu'n swyddogol yn Arlywydd Unol Daleithiau America. **Pwy ydw i?** _____



5. Nawr mae'n amser cynllunio digwyddiad sy'n dathlu diwylliant pobl dduon yn dy ysgol a dy gymuned. Efallai yr hoffet greu digwyddiad neu weithgaredd sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth, ffilm, ffasiwn, diwylliant neu fwyd. Isod, dylunia boster i annog pobl i ddod i dy ddigwyddiad.



Atebion i athrawon:

1. Lanswyd Mis Hanes Pobl Dduon yn y 1980au. Cafodd ei gyflwyno i herio hiliaeth, addysgu cymunedau am yr hanes nad oedd yn cael ei addysgu yn yr ysgol, a gwneud iawn am y diffyg cynrychiolaeth mewn llyfrau hanes.
2. Mis Hydref yw'r mis pan fydd penaethiaid ac arweinwyr Affricanaidd yn dod at ei gilydd, yn draddodiadol, i ddatrys eu gwahaniaethau.
4. Cwis Pwy ydw i
 - a. Will Smith
 - b. Rosa Parks
 - c. Martin Luther King Yr Ieuengaf
 - ch. Lewis Hamilton
 - d. Barack Obama

